Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer
Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau

Summit SKILLS

Adolygiad Blynyddol 2007 – 08

sgillau
AR GYFER BUSNES



Rhageiriau

Mae'r deuddeng mis diwethaf wedi gweld newidiadau mawr mewn hyfforddiant a arweinir gan gyflogwyr, gyda sectorau fel peirianneg gwasanaethau adeiladau yn arwain y ffordd erbyn hyn ar ddatblygu sgiliau. Yn fy marn i mae prentisiaethau yn ganolog i gynyddu lefelau sgiliau o fewn cwmnïau, ar draws sectorau ac yn yr economi yn gyffredinol, a dyma pam rwy'n annog cyflogwyr i fanteisio ar y cyfleoedd heb eu hail sydd ganddynt i weithio gyda SummitSkills i lunio gwasanaethau recriwtio a sgiliau. Yn gyfnewid am hynny, mae'n hanfodol bod cyflogwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau i fuddsoddi yn eu pobl.

Drwy annog a gwobrwyo cyflawniadau galwedigaethol, byddwn yn gwella cynhyrchedd a pherfformiad ar draws y DU. Bydd hyn yn arwain at fwy o gydnabyddiaeth a lefelau sgiliau uwch, a dyna pam rwy'n credu mewn pwysigrwydd cystadlaethau sgiliau. Mae ennill y cais i'r DU gynnal Worldskills 2011 yn Llundain yn golygu eu bod yn bwysicach nag erioed. Mae cystadlaethau sgiliau, fel y rheiny ar gyfer y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau, yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc talentog yn cael y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu wrth iddynt gystadlu i fod y gorau yn eu dewis broffesiwn.

Rydym yn gwybod bod angen i ni fod yn flaengar yn y ffordd rydym yn cyflwyno addysg, hyfforddiant ac achredu. Wrth weithio gyda'n gilydd i gyflawni llwyddiant, bydd y budd i ni oll yn rhagorol.

David Lammy AS
Gweinidog dros Sgiliau, yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (DIUS)

Mae 2007 unwaith eto wedi bod yn flwyddyn brysur, ond y canlyniad yw bod SummitSkills yn parhau i gyflawni i gyflogwyr ar draws y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau. Mae'r ffaith ein bod wedi gallu gwneud hyn yn ganlyniad tri ffactor.

Yn gyntaf, rydym yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n croesawu addysg alwedigaethol, sgiliau a dysgu yn fwy nag erioed o'r blaen. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i adeiladu ar waith Leitch a hyrwyddo diwylliant lle mae dewisiadau amgen go iawn i unigolion ddewis o'u plith wrth iddynt gyrraedd 16 neu 18 oed; dewis o lwybrau sy'n galluogi i unigolion gyrraedd nodau sy'n cyfateb i'w huchelgeisiau.

Yn ail, rydym wedi sefydlu sylfeini cadarn er mwyn i'r sector adeiladu arnynt a manteisio ar y cyfnod o dwf sydd o'n blaenau. Y sylfaen hon yw ein Cytundeb Sgiliau Sector, sef erbyn hyn y ddogfen awdurdodol ar anghenion sgiliau'r sector a sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r anghenion hynny.

Yn drydydd, mae gan SummitSkills staff ardderchog, y mae llawer ohonynt wedi bod yno ers y cychwyn cyntaf. Mae'n ymadrodd cyffredin, ond mae'n hollol wir – 'ni fyddem wedi gallu gwneud hyn hebddyn nhw'. Diolch i bob un ohonoch.

Simon Bartley,
Cadeirydd

Heb os, cyflawniad mwyaf y deuddeng mis diwethaf yw cyrraedd y Cytundeb Sgiliau Sector terfynol ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau, gan ei fod wedi cynnwys pob aelod o staff i amrywiol raddau. Am y tro cyntaf mae gennym gytundeb ar y cyd rhwng cyflogwyr, rhanddeiliaid a'r llywodraeth ar y cyfeiriad y mae angen i'r sector fynd iddo mewn perthynas â datblygu sgiliau, i ble y mae'n mynd a sut y byddwn yn cyrraedd ein nod.

Drwy'r cytundeb rydym yn gwybod pa sgiliau sydd eu hangen, ym mhle a phryd, a gallwn ddisgwyl i'r Llywodraeth nawr i gyflawni ei hochr hi o'r fargen a darwyd pan ddaethom yn Gyngor Sgiliau Sector – sef ein bod yn cael dylanwad go iawn ar y ffordd y mae sgiliau yn cael eu cyflwyno a llais go iawn wrth lunio polisi a'r ffordd y bydd adnoddau yn cael eu dyrannu.

Yn 2008 rydym yn edrych ymlaen at weithredu'r CSS a'i brosiectau, a hefyd i broses ail-drwyddedu rhwydd o dan y Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau DU newydd.

Keith Marshall,
Prif Weithredwr

Cytundeb Sgiliau Sector

Yn dilyn misoedd o ymgynghori a chynllunio gofalus, daeth prosiect 'Horizon' i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2008 a lansiwyd y Cytundeb Sgiliau Sector ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau. Pwrpas Cytundeb Sgiliau Sector (CSS) yw deall y materion sgiliau sy'n wynebu cyflogwyr a gweithio gyda hwy a rhan-ddeiliaid i ddatblygu datrysiadau fydd yn arwain at wella sgiliau yn sylweddol a buddiannau cynhyrchedd hir dymor ar gyfer y sector. Yn syml, cytundeb ydyw rhwng cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a'r llywodraeth. Mae cyflogwyr yn nodi yr hyn yw eu hanghenion o ran gweithlu a sgiliau nawr ac yn y dyfodol. Yn gyfnewid, mae'r llywodraeth a darparwyr yn cytuno i ariannu a chyflwyno hyfforddiant wedi'i deilwra at yr angen hwn, o fewn polisi'r llywodraeth, yn amodol ar y ffaith fod cyflogwyr hefyd yn barod i wneud ymrwymiad.

Mae'r CSS ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau yn seiliedig ar bum 'blaenoriaeth sgiliau' a ddatblygwyd yn dilyn ymgynghori manwl o gwmpas y DU:

- **Delwedd a chymhwyster:** hyrwyddo delwedd bositif o'r sector
- **Cyfathrebu a Gwybodaeth:** creu canolfan wybodaeth ar gyfer holl anghenion datblygu sgiliau'r sector
- **Darpariaeth Hyfforddiant:** sicrhau hyfforddiant rhagweithiol perthnasol o safon uchel
- **Ariannu:** hyblygrwydd o ran ariannu i gwrdd ag anghenion sy'n newid yn gyflym
- **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth:** cefnogi'r sector i gynllunio a datblygu busnesau proffidiol a chystadleuol.

Nid yw'r prosiect yn gorffen gyda hynny; dyma 'ddiwedd y dechrau', fel petai. Nawr rydym yn dechrau ar gyfnod o weithredu ac adolygu. Mae gweithgareddau'r Cytundeb Sgiliau Sector wedi dod yn gynllun busnes parhaus SummitSkills lle rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno yr hyn y mae cyflogwyr y sector yn ei ddymuno.

Cyflawnir hyn drwy grwpiau gweithredu ym mhob rhanbarth a gwlad fydd â'r atebolrwydd a'r cyfrifoldeb dros sicrhau cyflwyno datrysiadau'r CSS ar draws y DU. Bydd y grwpiau yn cwrdd yn chwarterol i adolygu a monitro cynnydd cyflwyno'r CSS.

Trosolwg Corfforaethol:

Y Bwrdd
Ym mis Hydref, penodwyd Simon Bartley, cadeirydd SummitSkills, yn brif weithredwr UK Skills. Bydd Simon yn parhau yn ei rôl fel cadeirydd SummitSkills tan fis Rhagfyr 2008 pan fydd ei dymor yn dod i ben yn naturiol. Bydd cadeirydd newydd yn cael ei recriwtio yn 2008 a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau yn y swydd ym mis Ionawr 2009. Roedd SummitSkills hefyd yn falch iawn o groesawu Ian Pattle o Heatplumb Supplies Ltd. yn Suffolk a ymunodd a'r bwrdd eleni.

Cynllun Iaith Gymraeg
Er mwyn cwrdd â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg a sicrhau bod deunyddiau ar gael yn rhwydd i unigolion sy'n siarad Cymraeg, lluniodd SummitSkills Gynllun Iaith Gymraeg lle ymrwymodd y sefydliad i gyfathrebu dwyieithog wrth ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru. Yn y dyfodol, bydd deunyddiau i'w dosbarthu yn y wlad yn cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda'r gêm Pentref Gwyliau Summit newydd yn un o'r cyntaf i'w gynhyrchu i gael ei gyfieithu'n llawn o dan y cynllun.

Penodiadau newydd

- Rheolwyr Gweithrediadau Cynorthwyol: Mark Clayton (Swydd Efrog a Humber), Ivor Rowley (Dwyrain Lloegr), Fred Titterington (Llundain).
- Rheolwyr Gweithrediadau: Vince Glover (Llundain), Kat Wehrheim (Dwyrain Canolbarth Lloegr).
- Rheolwr Datblygu, John Pratt.
- Staff y brif swyddfa: Lousie Delaney, Cynorthwy-ydd Digwyddiadau a Chronfa Ddata, Sandy Taylor, Rheolwr CC a Chyfathrebu Cynorthwyol ac Olivia Tyrie, Cynorthwy-ydd Cyllid.

Ystadegau'r wefan
Yn gyffredinol roedd dros 80,000 o ymwelwyr unigryw â'r wefan yn 07/08 (nid yn unig yn cynnal ffigurau 06/07 ond eu cynyddu o 10%). Yn benodol ar yr adran gyrfaoedd, cofrestrwyd bod tudalennau wedi cael eu gwylio dros 45,000 o weithiau sy'n fesur positif o'r nifer o bobl sy'n ymwybodol o ddeunyddiau gyrfaoedd SummitSkills.



Llenwi bylchau sgiliau

Strategaeth dysgu gydol oes yn yr Alban
Pan alwodd Llywodraeth yr Alban am fewnbwn ar ei phroses adnewyddu'r strategaeth dysgu gydol oes, roeddem wrth law i sicrhau bod barn y sector y cael ei chlywed. Mewn perthynas â phartneriaid allweddol yn yr Alban, cyflwynodd SummitSkills farn o safbwynt y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau fel rhan o ymateb ehangach y Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes, i'w hystyried gan Lywodraeth yr Alban. Yna defnyddiwyd y farn hon i hysbysu cynnwys dogfen Strategaeth Sgiliau i'r Alban y llywodraeth sydd wedi herio Cynghorau Sgiliau Sector i gyflawni ar draws pedwar prif faes, er mwyn:

- datblygu ymgysylltu cywir gyda'r ystod eang o gyflogwyr yn eu sector er mwyn iddynt siarad â hygrededd ar ran cyflogwyr;
- cyflwyno gwybodaeth y farchnad lafur sectoraidd yr ymddiriedir ynddi ac a ddefnyddir yn helaeth, ac sy'n cydweddu â'r wybodaeth genedlaethol gadarn a gyflenwir gan Futureskills Scotland
- sicrhau bod cyflogwyr yn cael mewnbwn i lunio a datblygu dysgu ar bob lefel, ym mhob lleoliad, nid mewn cymwysterau galwedigaethol yn unig, a
- chynnal partneriaethau cryf gyda chwaraewyr allweddol eraill yn eu sector yn ogystal â gyda'r Llywodraeth, darparwyr a chyrff cyfryngol.

"Rhagweld gofynion sgiliauÅfr dyfodol"

Mae Profiad yn Cyfrif
Roedd y nifer cynyddol o recriwtiaid newydd yn ymuno â diwydiannau gwasanaethau adeiladu ac adeiladau yr Alban bob blwyddyn wedi creu diffyg yn nifer y bobl â chymwysterau'r diwydiant i'w hyfforddi nhw. Oherwydd bod colegau wedi adrodd am broblemau recriwtio, lansiwyd ymgyrch i ymgysylltu unigolion profiadol fel darlithwyr, technegwyr neu aseswyr/dilyswyr. Gweithiodd SummitSkills ochr yn ochr â dau gyngor sgiliau sector arall, sef ConstructionSkills ac AssetSkills, ar y prosiect 'Mae Profiad yn Cyfrif' a gyfeiriwyd gan Lifelong Learning UK (LLUK) ac a ariannwyd gan Lywodraeth yr Alban. Cofrestrodd dros gant o bobl ddiddordeb cychwynnol a chynhaliwyd gweithdai 'cael blas' mewn sawl coleg. O ganlyniad, gwerthuswyd tri deg a thri o bobl gyda chefnogaeth LLUK.

Llwybr Sgiliau Lefel Uwch
Gyda'r bwriad o lenwi bylchau sgiliau, cymerodd SummitSkills ran yn y prosiect Llwybr Sgiliau Lefel Uwch. Wedi'i arwain gan Gymdeithas Prifysgolion y Gogledd Orllewin, mae'r prosiect yn hyrwyddo llwybrau hyblyg i gynyddu ymgysylltiad cyflogwyr mewn addysg uwch ac mae'n anelu at gynyddu'r buddsoddiad mewn, a'r cofrestru ar gyfer sgiliau lefel uwch o fewn gweithlu Gogledd Orllewin Lloegr. Mae dwy brifysgol – sef Prifysgol John Moores Lerpwl a Phrifysgol Canolbarth Swydd Gaerhirfryn – wedi llwyddo i gael cyllid ac maent yn gweithio i ymestyn y ddarpariaeth yn y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Microgynhyrchu yng Nghymru
Comisiynwyd SummitSkills gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i asesu'r anghenion ar gyfer y sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Yn tarddu o'r adroddiad a gynhyrchwyd oedd cynllun gweithredu deg pwynt i fynd i'r afael â'r prif faterion ynghylch sgiliau mewn technolegau microgynhyrchu ac ansawdd y ddarpariaeth hyfforddiant. Mae Cymru yn ymrwymedig i raglen o gynhyrchu ynni adnewyddadwy i gynnal economi fywiog, yn arwain at alw enfawr i'r sector peirianneg gwasanaethau adeiladau ddarparu'r sgiliau a'r hyfforddiant cywir. Fel rhan o Grwp A – Grwp Sgiliau a Hyfforddiant y Cynllun Gweithredu Microgynhyrchu, gofynnwyd i SummitSkills hefyd gyflwyno cynllun arfer gorau i Gymru.

Rhagweld llwythi gwaith rhanbarthol yng Ngogledd Iwerddon
Cafodd adroddiad a gomisiynwyd gan SummitSkills i archwilio gofynion cyflogi y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau yng Ngogledd Iwerddon y gallai diwydiant adeiladu'r rhanbarth berfformio'n well na Gweriniaeth Iwerddon dros y pum mlynedd nesaf, gan effeithio ar weithgarwch traws-ffiniol. Er mwyn cael safbwynt ehangach ar y materion sy'n effeithio ar y sector yng ngogledd a de'r wlad, cynhaliwyd cyfweliadau â chwe chant o gyflogwyr lleol er mwyn cael gwybodaeth fanwl am eu patrymau recriwtio a gwaith-teithio, a mesurwyd hynny yn erbyn llwythi gwaith yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn wedi bod yn offeryn gwerthfawr o ran cynnal safon yr wybodaeth i ran-ddeiliaid o fewn peirianneg gwasanaethau adeiladau a bydd yn cael ei gynhyrchu'n flynyddol er mwyn parhau i hysbysu darparwyr, cyflogwyr a chyrff strategol ynghylch anghenion hyfforddiant newydd-ddyfodiaid yn y dyfodol.

"Er mwyn symud cwmnïau ymlaen ym marchnadoedd cystadleuol heddiw, maeÅfn hanfodol bod yr isadeiledd, yr adnoddau aÅfr hyfforddiant ar gael syÅfn addas ar gyfer ein diwydiant penodol. Gwastraffwyd gormod o arian yn y gorffennol ar feysydd amherthnasol neu sydd wedi dyddio. MaeÅfn hollbwysig bod cyflogwyr yn lleisioÅfu barn nawr, er mwyn iÅfr cytundeb adlewyrchu anghenion cyflogwyr yn gywir."
Barry Briers, End Systems Limited

Hyrwyddo agenda sgiliau'r sector

Cynllun Gweithredu Leitch
Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y llywodraeth eu hymateb i Adolygiad Sgiliau Leitch ac arweiniodd hyn ar Gynllun Gweithredu Leitch, sy'n rhoi cyflogwyr yn Lloegr wrth wraidd datblygu sgiliau drwy eu cynghorau sgiliau sector (mae gweinyddiaethau datganoledig yn datblygu eu strategaethau sgiliau eu hunain). Mae'r cynllun yn nodi cyfrifoldebau clir ar gyfer cynghorau sgiliau sector yn enwedig ym meysydd safonau a chymwysterau yn cynnwys:

- **sicrhau bod y cyflenwad o sgiliau a chymwysterau galwedigaethol wedi'i yrru gan gyflogwyr**
- **codi uchelgais cyflogwyr a'r buddsoddiad mewn sgiliau**
- **cyfathrebu anghenion sgiliau eu sector at y dyfodol.**

Ysgogodd y cynllun gweithredu hefyd sefydlu Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau y DU fel yr argymhellwyd yn Adolygiad Leitch. Mae'r sefydliad hwnnw yn ei le ar 1 Ebrill 2008. Un o weithgareddau allweddol UKCES fydd diwygio ac ail-drwyddedu'r cynghorau sgiliau sector erbyn 2009. Mae SummitSkills wedi dechrau trafod hyn gyda'r Comisiwn ac mae wedi sefydlu is-bwyllgor o'r bwrdd er mwyn goruchwylio'r gweithgarwch ail-drwyddedu. Mae'r pwyllgor hwnnw eisoes wedi cwrdd a dechrau ar eu gwaith. Bydd lefel y gweithgarwch ailddrwyddedu yn codi wrth i'r meini prawf ddod yn glir.

Gweinyddiaethau datganoledig
Mae cynllun gweithredu Leitch yn nodi gweithgareddau yn Lloegr. Mae SummitSkills wedi gweithio â'r holl weinyddiaethau datganoledig wrth ymateb i'w strategaethau sgiliau: Success through Skills yng Ngogledd Iwerddon; Skills for Scotland: A Lifelong Learning Strategy yn yr Alban; a Geiriau'n Galw – Rhifau'n Cyfri yng Nghymru. Mae'r strategaethau sgiliau hyn wedi'u hymgorffori i mewn i gynlluniau gweithredu y gwledydd unigol a ddatblygwyd fel rhan o weithgareddau cynllunio busnes rheolaidd SummitSkills.

Strategaeth Cymwysterau'r Sector
Mae SummitSkills wedi dechrau datblygu Strategaeth Cymwysterau'r Sector (SQS). Mae'r prosiect arwyddocaol hwn yn adeiladu ar ganlyniadau'r CSS fu'n gwerthuso pa mor 'addas at y diben' y mae'r cymwysterau presennol. Mae'r SQS yn mapio strategaeth SummitSkills ar gyfer y dyfodol parthed y system gymwysterau ar gyfer y sector a bydd yn ei lle erbyn diwedd Ebrill 2008. Bydd gwaith cymwysterau wedi'i orffen erbyn diwedd Ionawr 2009. Bydd yr SQS yn defnyddio camau un i dri o'r CSS yn bennaf, yn dilyn ymgynghori helaeth ar draws y DU.

Adolygiad Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
Mae adolygiad sylweddol o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau wedi'i gynnal mewn prosiect a reolir gan SummitSkills, wedi'i gefnogi gan gyflogwyr allweddol a phrif gyrff masnach a phroffesiynol y sector. Mae NOS yn disgrifio'r cymwyseddau sy'n ffurfio sylfaen cymwysterau fel Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol a Chymwysterau Galwedigaethol yr Alban (NVQau a SVQau). Digwyddodd gwaith manwl ar adolygu safonau galwedigaethol crefft drwy weithgorau ar gyfer pob un o'r prif ddiwydiannau o fewn y sector ynghyd â chyfres o grwpiau ffocws ac ymgynghoriadau ar y we.

Bydd yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd gwanwyn 2008 pan fydd gan SummitSkills am y tro cyntaf un set fodern, gyson a chydlynus o safonau ar draws y sector cyfan. Bydd y sylfaen gadarn hon yn galluogi datblygu cymwysterau drwy'r cyrff dyfarnu, i gefnogi anghenion sgiliau'r sector a nodwyd yn ein Strategaeth Cymwysterau'r Sector.

> *AsesuÅfr ddarpariaeth bresennol*

skill M&E

Cystadlaethau sgiliau
Yn 2007 lansiwyd Sgil M&Th sy'n cwmpasu tair cystadleuaeth sgiliau a drefnir gan SummitSkills ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau – SkillFRIDGE ar gyfer rheweiddiad a thymheru, SkillPLUMB ar gyfer plymo a SkillELECTRIC ar gyfer gosodiadau trydanol.

Dechreuodd ymgyrch hyrwyddo lefel uchel ar ddiwedd y flwyddyn pan anfonwyd gwahoddiadau ar gyfer ceisiadau allan ar draws y DU i chwilio am beirianwyr mecanyddol a thrydanol gorau'r sector. Mae SummitSkills wedi sefydlu gwefan benodedig (www.skillMandE.org.uk) sy'n cynnig gwybodaeth am y gystadleuaeth, ffurflenni enwebu, newyddion, digwyddiadau a phecynnau nawdd.

Cynhaliwyd un o'r rowndiau cyntaf, sef rownd gynderfynol Iwyddiannus iawn o SkillFRIDGE, yng Ngholeg De Birmingham ym mis Mawrth 2008, lle roedd y safonau yn eithriadol o uchel a dewiswyd y cystadleuwyr gorau bellach i gymryd rhan yn rownd derfynol y DU ym mis Mehefin.

Cynlluniwyd y cystadlaethau er mwyn hyrwyddo safonau a sgiliau mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau, gan ddatblygu cymhwysedd yn rhagoriaeth. Gallai enillwyr rowndiau terfynol y DU yn 2008 hefyd gael y cyfle i gystadlu'n rhyngwladol fel rhan o Sgwad y DU yn nigwyddiad WorldSkills 2009, sy'n cael ei gynnal yng Nghanada.

skillELECTRIC

skillFRIDGE

skillPLUMB

Tystysgrif Genedlaethol Newydd i Gyflogwyr yr Alban
Ar ôl gwrando ar farn cyflogwyr yn yr Alban i gael dealltwriaeth well o'u hanghenion sgiliau sector penodol, gweithiodd SummitSkills gyda'r darparwr hyfforddiant BEST (Scotland) Ltd ac Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA) i ddatblygu'r Dystysgrif Newydd ar gyfer Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau. Mae'r cymhwyster wedi'i deilwra i gwrdd ag anghenion unigryw cyflogwyr lleol ac mae'n gwarantu hyfforddiant o safon uchel a gyflwynir dros gyfnod o ddwy flynedd drwy ryddhau am ddiwrnod. Mae myfyrwyr yn derbyn lefel gychwynnol o wybodaeth yn egwyddorion sylfaenol dylunio, gosod, cynnal a chadw a rheoli systemau peirianneg adeiladau, fydd yn cynnig llwybr cynnydd tuag at lefel HNC.

Train to Gain
Mae SummitSkills wedi gweithio'n agos â'r Cyngor Dysgu a Sgiliau (LSC) a'r Gwasanaeth Broceriaeth Train to Gain i hyrwyddo cyfleoedd Train to Gain i gyflogwyr ar draws rhanbarthau Lloegr. Mae'r LSC hefyd yn gweithio gyda SummitSkills fel rhan o'r Cytundeb Sgiliau Sector drwy helpu i hyrwyddo'r cyfleoedd ariannu a broceriaeth amrywiol sydd ar gael.

Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant
Comisiynwyd SummitSkills gan Is-adran Prosiect Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru i ailysgrifennu'r Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant ar gyfer ôl troed ynni'r sector, i roi gwell syniad i gyflogwyr Cymru yn y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau ynghylch eu hanghenion hyfforddiant a gwell mynediad i gyfleoedd ariannu. Bydd ymgynghori â chyflogwyr y sector yn rhoi'r cyfle iddynt ddatgan eu gofynion hyfforddiant, dadansoddi materion sgiliau posib a nodi diffygion sgiliau. Mae'n bwysig nodi y bydd yr wybodaeth a gesglir ar ran yr Is-adran Prosiect Ynni yn rhoi gwybodaeth hynod werthfawr iddynt ar y gweithrediadau fydd eu hangen yn y dyfodol i helpu i gefnogi'r sector wrth i dechnolegau a rheoliadau newydd ddod i'r amlwg. Mae pum deg o gyfweliadau gyda chyflogwyr wedi cael eu trefnu a bydd y prosiect llawn yn dod i ben ym mis Mai 2008.

Gwobrau Hyfforddiant Cenedlaethol 2007
Roedd Gwobrau Hyfforddiant Cenedlaethol 2007 (NTA) a drefnwyd gan SummitSkills yn dathlu talent prentisiaid a pheirianwyr gorau'r sector mewn digwyddiad pwysig yn Llundain ym mis Mawrth. Ymunodd y Gweinidog Sgiliau Phil Hope AS â'r gwobrau drwy gyswllt fideo, gan bwysleisio gwerth sgiliau, a chydnabod pwysigrwydd adnabod a hyrwyddo talent drwy'r digwyddiadau hyn. Yn dilyn hyn, aeth SummitSkills ymlaen i weithio gyda phedwar enillydd NTA fel rhan o hyrwyddiad cenedlaethol i'w cynnwys fel llysgenhadon y sector ar ymweliadau â'u cyn-ysgolion uwchradd i helpu hyrwyddo gyrfaoedd mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Roedd y llysgenhadon yn cynnwys:
- Richard Crook o Airedale Mechanical and Electrical yn Guiseley – Gweithredydd Crefft Plymo y Flwyddyn (yn y llun gyda'r pennaeth Stuart Hemmingway, uchod);
- Gavin Jones o Integral ym Manceinion – Gweithredydd Crefft Rheweiddiad a Thymheru y Flwyddyn;
- Nick Bloore o gwmni peirianneg, Bailey – Gweithiwr Profiadol Presennol y Flwyddyn;
- James Bamber o E Poppleton & Sons Lyd ym Mae Colwyn – Gweithredydd Crefft G&A a'r Gorau o'r Goreuon.

Helpodd yr ymweliadau i godi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli'r rheiny sy'n ystyried gyrfaoedd mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Cyflwyno prentisiaethau yng Ngogledd Iwerddon
Yn dilyn adolygiad 12 mis yr Adran Cyflogaeth a Dysgu i gyflwyno prentisiaethau ar draws pob un o'r 25 sector o fewn Gogledd Iwerddon, darparodd SummitSkills gefnogaeth allweddol i fenter ar y cyd rhwng is-gwmni HVCA, Buidling Engineering Services Training Ltd a Ffederasiwn Cyflogwyr Plymo yr Alban a Gogledd Iwerddon wrth sefydlu Hyfforddiant Gwasanaethau Plymo a Mecanyddol (PMST).

Penodwyd PMST gan yr Adran Cyflogaeth a Dysgu i reoli rhaglenni prentisiaeth yn arwain at Gymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol Lefel 2 a 3 am gyfnod cychwynnol o dair blynedd a ddechreuodd ym mis Medi. Mae'n gosod y cyflogwr wrth wraidd y broses gyflwyno ac yn darparu ffocws hollbwysig ar gyflwyno anghenion hyfforddiant lleol ar gyfer y sector mecanyddol cyfan.

"Rhoi cyflogwyr wrth wraidd datblygu sgiliau"

"Rydym wedi gwerthfawrogi ein cyfraniad i ddatblygiad strategol y CSS – mae cynnwys cyflogwyr yn hollbwysig i'r broses gyfan, felly mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r cynllun a chyfrannu, i sicrhau ein bod yn symud darparu hyfforddiant i system sydd wedi'i harwain yn wirioneddol gan gyflogwyr".
Steve Craddock, C A Sothers Ltd.

Datblygu gweithlu cymwys

"Blaenoriaethu hyfforddiant sgiliau"

Technolegau Amgylcheddol
Mae technolegau amgylcheddol yn rhan allweddol o'r cytundeb sgiliau sector ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau. Er mwyn sicrhau bod y sector yn datblygu gweithlu cynaliadwy ar bob lefel o gymhwysedd i gyfateb i dwf yn y technolegau newydd, datblygodd SummitSkills y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer y maes pwysig hwn. Bydd y safonau hyn yn cefnogi datblygiadau o ran cymwysterau, yn ogystal â bod yn sylfaen i'w hintegreiddio i mewn i'r cymwysterau prif ffrwd sydd eisoes ar gael o fewn y sector. Mae'n hollbwysig sicrhau bod gan gyflogwyr ar draws y DU fynediad i ddarpariaeth hyfforddiant o safon uchel yn y technolegau hyn er mwyn i ddarparwyr allu ymateb i anghenion technoleg amgylcheddol sy'n datblygu yn y dyfodol.

Mae gan Grwp Diddordeb Gweithgynhyrchwyr & Chynaliadwyedd SummitSkills gyfrifoldebau yn y maes hwn ac maent wedi ffurfio cysylltiadau â sefydliadau allweddol ar draws y DU fel Gweithgor Systemau Technoleg Amgylcheddol SNIPEF yn yr Alban, y Fforwm Microgynhyrchu yng Nghymru a'r Grwp Cynaliadwyedd Mecanyddol a Thrydanol, fforwm a luniwyd ar y cyd gan y Gymdeithas Contractwyr Trydanol a'r Gymdeithas Contractwyr Gwresogi ac Awyru. Yng Ngogledd Iwerddon, mae SummitSkills wedi mapio a datblygu strategaeth sgiliau barhaus ar gyfer technolegau adnewyddadwy ac mae'n parhau i ddatblygu'r anghenion sgiliau. Rydym yn parhau i weithio gydag aelodau eraill y Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes fel Cogent, Energy & Utility Skills, ConstructionSkills ac eraill ar draws y DU, gan weithio'n agos â darparwyr a chyrff dyfarnu i ddatblygu hyfforddiant a chymwysterau priodol ar gyfer y dyfodol.

Yr Addewid Sgiliau
Roedd argymhelliad allweddol yn Adolygiad Sgiliau Leitch yn rhybuddio bod rhaid i'r DU wella sgiliau ar bob lefel os yw am gynnal a gwella ei safle yn yr economi fyd-eang. Nododd y cynllun gweithredu yr Addewid Sgiliau fel offeryn allweddol yn y gwelliant hwn. Mae SummitSkills yn gyflogwr hefyd ac fel rhan o'i ymrwymiad parhaus i fuddsoddi mewn sgiliau, SummitSkills oedd un o'r cyflogwyr cyntaf i gofrestru ar gyfer yr Addewid Sgiliau. Yn ogystal â dangos ymrwymiad, mae hyn hefyd yn rhoi mynediad i frocer sgiliau arbenigol ar gyfer arweiniad fel rhan o wasanaeth Train to Gain y Cyngor Dysgu a Sgiliau.

Mae SummitSkills hefyd wedi gweithio gyda BusinessLink NW i gefnogi busnesau yng ngogledd orllewin Lloegr sydd â diddordeb mewn llofnodi'r Addewid Sgiliau ac mae'n gweithio i gynnwys cyflogwyr eraill ar draws y DU.

ACS Nwy
Gweithiodd SummitSkills drwy Grwp Cydgysylltu â Diwydiant Pwyllgor Cynllun ACS i gynhyrchu model amgen ar gyfer ACS Nwy, y dystysgrif cymhwysedd diogelwch nwy. O dan y cynigion, bydd arolygwyr CORGI yn ymwneud mwy â barnu cymhwysedd deiliaid cardiau fel rhan o'u proses arolygu. Byddai deiliaid cardiau presennol a'r rhai oedd yn uwchraddio yn symud i asesu ar sail risg. Mae'r Gweithgor lechyd a Diogelwch wedi bod yn rhan o reoli'r broses ymgeisio ar gyfer y corff cofrestru diogelwch nwy eilaidd (CORGI ar hyn o bryd). Gyda'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, mae cynnydd ar adolygu'r cynllun wedi cael ei ohirio tan i'r corff cofrestru llwyddiannus gael ei gyhoeddi ac i adolygiad o'r cynllun ACS gael ei gynnal.

Achredu Hyfforddiant i Gyflogwyr
Dechreuodd yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA) ar beilot i archwilio i'r posibilrwydd o achredu'r hyfforddiant a gynhelir gan gyflogwyr yn uniongyrchol i mewn i'r system gymwysterau. Dyma ymagwedd a allai o bosib fod o ddiddordeb i lawer o gyflogwyr, ac yn benodol i weithgynhyrchwyr, yn y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau gan y byddai'n caniatáu cydnabyddiaeth genedlaethol o gynlluniau hyfforddiant cwmnïau. Enwebodd SummitSkills, sy'n rhan o'r grwp llywio ar gyfer y prosiect, gwmnïau i gymryd rhan yn y peilot a chynnal cyfres o weithdai i archwilio'r posibiliadau. Cwblhawyd adroddiad o'r gweithdai ar ddiwedd y flwyddyn a'i gyflwyno i QCA.

Cynllun Personau Cymwys
Parhaodd SummitSkills i gefnogi datblygu Cynllun Personau Cymwys y Rheoliadau Adeiladu yn Lloegr. O fewn y fanyleb cymhwysedd technegol isafswm, cynhwyswyd strategaeth asesu yn nodi'r cymwysterau isafswm ar gyfer aseswyr. Mae hyn yn golygu bod rhaid i aseswyr feddu ar NVQ Lefel 3 mewn gwresogi & awyru, plymo, olew a nwy, neu'r cymwysterau blaenorol yn ogystal â dwr twym heb ei awyru, rheoliadau dwr a'r unedau asesu priodol. Mae'r gofyniad yn sicrhau eu bod yn gymwys i lefel y rheiny y maent yn eu hasesu o leiaf, er mwyn cynnal cryfder a safon safonau'r diwydiant. Ceisiodd SummitSkills gymeradwyaeth ar gyfer y strategaeth asesu hon gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG).

Mae SummitSkills yn parhau â'i waith, drwy gefnogi'r DCLG a Gweithredwyr Cynlluniau Personau Cymwys, i ddatblygu a diffinio'r cymhwysedd technegol isafswm ar gyfer unigolion sy'n dymuno ymuno â chynllun ar ardystio cwblhau gwaith o dan y rheoliadau adeiladu yn Lloegr. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i ddiffinio strategaeth asesu fydd yn cynnwys cymwysterau technegol aseswyr y cynllun, i gynnal cryfder a safon safonau a chymwysterau'r diwydiant.

"Fel cyflogwr, rwyf am gael y sicrwydd o wybod bod fy nghyflogai yn derbyn yr hyfforddiant cywir i'r safonau uchaf posib. Rwy'n credu y gellir cyflawni hyn drwy weithio gyda SummitSkills a'i bartneriaid."
Ian Pattle, Heatplumb Supplies Ltd.

Darparu ar gyfer cynnydd gyrfa

Cyrsiau Sgiliau ar gyfer Gwaith
Ymunodd SummitSkills â'r tîm dylunio ar gyfer y cymwysterau Peirianneg Canolradd 2 a Thrydanol Canolradd 2 SQA sy'n cael eu datblygu i'w defnyddio yn yr Alban gan ddisgyblion ysgol 14–17 oed yn 2008. Mae'r cymwysterau hyn yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion brofi amrywiaeth o ddysgu a sgiliau cyflogadwyedd, ac agor ffenest iddynt i'r byd gwaith y maent ar fin ymuno ag ef.

Gyrfaoedd
Treuliodd SummitSkills gryn amser y llynedd yn ehangu ei weithgarwch hyrwyddo gyrfaoedd. Mewn cyfres o ffeiriau gyrfaoedd ar draws y DU, dangosodd SummitSkills y gêm gyrfaoedd rhyngweithiol newydd a ddyluniwyd yn benodol i annog pobl ifanc i ymuno â'r sector drwy chwarae'n ymarferol yn rôl peiriannydd gwasanaethau adeiladau. Mae'r gêm wedi cael derbyniad da iawn ac fe'i hanelir at y rhieny sy'n archwilio eu hopsiynau gyrfa yn ogystal ag athrawon, rheini, ymgynghorwyr gyrfaoedd ac eraill sy'n dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau gyrfa. Bydd gyrfaoedd yn y sector hefyd yn dod yn fyw mewn DVD newydd a gynhyrchir gan SummitSkills, yn dangos proffiliau o bobl go iawn ar gamau amrywiol yn eu gyrfaoedd, yn amrywio o brentis i Beiriannydd Siartredig.

Lansiwyd y map gyrfaoedd rhyngweithiol ar-lein hefyd yn 2007, yn tracio llwybrau amrywiol opsiynau gyrfa ar draws peirianneg gwasanaethau adeiladau, o lefel prentis i beiriannydd siartredig. Mae'r map ar gael ar wefan SummitSkills fel fersiwn rhyngweithiol neu PDF, ac mae'n mapio'r llwybrau hyfforddiant a chynnydd sydd ar gael ar gyfer gyrfaoedd yn y sector.

O ganlyniad i'n presenoldeb yng nghynhadledd genedlaethol y Sefydliad Arweiniad Gyrfaoedd, cysylltwyd â mwy na 200 o gynadleddwyr drwy lythyru uniongyrchol, gan eu cyfeirio at yr offerynnau gyrfa amrywiol sydd ar gael gan SummitSkills. Roedd y rhain yn cynnwys y wefan, llinell gymorth, map gyrfaoedd, gêm a'r DVD arfaethedig.

Safon Ansawdd Hyfforddiant
Mae safon newydd uwch wedi cael ei chyflwyno gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau i ddisodli proses asesu'r Ganolfan Rhagoriaeth Alwedigaethol (CoVE). Mae'r Safon Ansawdd Hyfforddiant Newydd yn fframwaith asesu a phroses achredu ar gyfer darparwyr hyfforddiant yn Lloegr, yn cynnwys y rheiny a gydnabuwyd yn flaenorol fel CoVEau, wedi'i dylunio i gydnabod rhagoriaeth mewn cyflwyno datrysiadau hyfforddiant a datblygiad i'w cynnig i gyflogwyr.

Mae Rhan B y safon yn canolbwyntio ar feysydd lle mae gan sefydliadau arbenigedd mewn sector penodol ac mae gan SummitSkills gyfrifoldeb dros adolygu ceisiadau ar gyfer Rhan B ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau. Mae'r safon yn cynnig i ddarparwyr hyfforddiant fframwaith cynhwysfawr i'w ddefnyddio i werthuso eu strategaethau a'u canlyniadau. Mae hefyd yn cynyddu hyder cyflogwyr drwy gynyddu lefel ymateb ac ansawdd y cyflwyno gan ddarparwyr hyfforddiant, gan greu nod ansawdd er mwyn adnabod arweinwyr y farchnad yn hawdd.

> *Adnabod rhagoriaeth*

Fframwaith Graddau Sylfaen
Cynyddodd datblygu'r fframwaith Graddau Sylfaen yn dda. Cynhaliwyd ymgynghori cychwynnol gyda chyflogwyr drwy grwpiau diddordeb SummitSkills, pwyllgorau addysg cymdeithasau masnach a phwyllgor addysg CIBSE. Anelwyd hyn at godi ymwybyddiaeth o'r graddau sylfaen a materion a nodwyd yn ystod yr ymchwil, gan arwain at ddigwyddiad ymgynghori yn Llundain ym mis Ionawr 2008. Dilynwyd hyn gan adolygiad o'r fframwaith drafft a bwriedir ymgynghori ymhellach ym mis Mai 2008. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar gynllun gweithredu ar gyfer y fframwaith.

Diplomâu 14–19
Yn dilyn gwaith yn 2005 a 2006 ar ddatblygu'r Diploma Peirianneg a'r Diploma Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig i'r rhai 14–19 oed, parhaodd SummitSkills i ymwneud yn helaeth ag ymgysylltu cyflogwyr fel rhan o'i ymrwymiad i gefnogi cyflwyno'r diplomâu newydd. Rydym wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, oedd yn cynnwys naw digwyddiad rhanbarthol yn Lloegr a gynhaliwyd gan Bartneriaethau Datblygu Diplomâu (DDP) gyda chefnogaeth gan yr Adran Blant, Ysgolion a Theuluoedd, i ymgysylltu cyflogwyr wrth gyflwyno'r diplomâu, fydd yn cael eu haddysgu mewn ysgolion o fis Medi 2008.

Rheoliadau Nwy F
Daw rheoliadau Nwy F Ewropeaidd newydd i rym yn 2009, ac ar ôl hynny bydd gan gyflogwyr gyfnod o dair blynedd i uwch-sgilio eu gweithlu. Mae SummitSkills wedi gweithio gyda'r Bwrdd Diwydiant Tymheru a Rheweiddiad (ACRIB), ConstructionSkills, City & Guilds a DEFRA i ddiweddaru cymwysterau i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd a dylai'r rhain fod ar gael erbyn haf 2008. Bydd y cymhwyster newydd yn seiliedig ar sgiliau ymarferol a phrofion theori aml ddewis. Bydd NVQau ac SVQau hefyd yn cael eu diweddaru i adlewyrchu gofynion Rheoliadau Nwy F.

"Mae ein strwythur rheoli bellach yn gwbl seiliedig ar unigolion sydd wedi cynyddu drwy ein busnes. Mae strategaeth y cwmni yn cael ei dylanwadu a'i cyfeirio gan y bobl hyn ac mae'n dystiolaeth glir o fanteision buddsoddi mewn datblygiad personol a hyfforddiant sgiliau".
Dennis Haskins, MD, H&A Mechanical Services.

Gwella cynhyrchedd

Prosiect Di-garbon
O fewn yr Academi Sgiliau Adeiladu Cenedlaethol yng Ngogledd Orllewin Lloegr, sy'n anelu at greu o leiaf 10,000 o swyddi yn yr ardal drwy brentisiaethau a helpu 100,000 o weithwyr profiadol ennill NVQ Lefelau 2 neu 3, mae SummitSkills yn parhau i gefnogi cyflogwyr lleol sydd wedi cychwyn ymgyrch i gyflawni sefyllfa di-garbon yn y rhanbarth erbyn 2050. Bydd rhan o'r her Di-garbon yn gweld mwy na chwe chant o gartrefi eco newydd yn cael eu datblygu ar safle 162 erw hen Lofa Bickershaw yn Wigan, gyda phrosiectau ychwanegol i'w cyhoeddi yn ddiweddarach. Y datblygiad hwn yw un o'r cynlluniau adfywio meysydd glo mwyaf yn y wlad. Mae SummitSkills yn gweithio gyda chyflogwyr i nodi darpariaeth hyfforddiant briodol a chynnig arweiniad ar y safonau cymhwysedd sydd eu hangen.

Addewid Sgiliau Sylfaenol Y Cyflogwr
Dyfarnwyd Gwobr Addewid Sgiliau Sylfaenol y Cyflogwr i SummitSkills am ei ymrwymiad i sgiliau sylfaenol ac mae nawr yn annog busnesau ar draws Cymru i gymryd rhan yn yr Addewid, sy'n anelu at hybu nifer yr oedolion â sgiliau sylfaenol yn y gweithle. Fel rhan o'r prosiect, recriwtiodd SummitSkills llysgennad cyflogwyr i ymweld â busnesau i godi ymwybyddiaeth o'r materion y gall diffyg sgiliau sylfaenol yn y gweithle eu hachosi a helpu cyflogwyr i ddod o hyd i ddatrysiadau i fynd i'r afael â hwy.

Gan weithio mewn cydweithrediad â Sgiliau Sylfaenol Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r llysgennad cyflogwyr eisoes wedi llwyddo i sefydlu cysylltiad gyda chwe chwmni canolig eu maint sy'n awyddus i lofnodi Addewid Sgiliau Sylfaenol y Cyflogwr. Drwy wneud yr Addewid Sgiliau, bydd y cwmnïau hyn yn cael mynediad i grant o hyd at £5,000 i helpu i ariannu hyfforddiant sgiliau sylfaenol yn y gweithle.

Cynyddu nifer y prentisiaethau
Dechreuodd SummitSkills ar ei waith mewn dwy ardal beilot – Dwyrain Canolbarth Lloegr a Chymru – i gefnogi cyflogwyr i ymgysylltu â'r broses brentisiaethau i raddau helaethach ac i safon uwch o ansawdd prentisiaethau. Mae'r cynllun, sef cyflenwi nifer digonol o newydd-ddyfodiaid priodol gymwys i'r sector a gwella cyfraddau cwblhau, yn golygu gweithio'n agos gyda cholegau a chyflogwyr. Erbyn haf 2008, gobeithir fel rhan o'r gefnogaeth newydd fydd ar gael y gellir creu rhaglen gychwynnol i brentisiaid newydd i gwmpasu sgiliau offer a gwybodaeth sylfaenol, gyda ffocws clir ar ddatblygu cymwyseddau ymddygiadol mewn amgylchedd gwaith gwirioneddol.

Rhwydwaith Cyflogwyr SummitSkills
Sefydlwyd Rhwydwaith Cyflogwyr SummitSkills (SSEN) yn 2007 ac mae'n cynnwys mwy na thri chant o gyflogwyr peirianneg gwasanaethau adeiladau sydd wedi nodi eu diddordeb mewn cydweithio i rannu eu sgiliau er budd proffesiynol. Mae'n cwmpasu'r holl grefftau yn y sector ac yn cwmpasu pob sir. Anogir cyflogwyr i gydweithio gyda busnesau tebyg a chysylltiedig er mwyn gwella sgiliau, creu cwmnïau mwy sefydlog, cynyddu elw a chynhyrchedd a sicrhau bod sgiliau mewn cwmnïau sefydledig yn cael eu trosglwyddo a'u rhannu.

DEL yn cefnogi darpariaeth Gwaith Pibellau APL a ariennir
Gweithiodd SummitSkills yn agos â DEL (yr Adran Cyflogaeth a Dysgu) ar ran cyflogwyr lleol yng Ngogledd Iwerddon i sefydlu darpariaeth ar gyfer cymhwyster City & Guilds Lefel 2 NVQ mewn Gwresogi ac Awyru (gosod pibellau). Cyflwynir y cymhwyster drwy'r broses asesu Achredu Dysgu Blaenorol, a ddatblygwyd gan SummitSkills a'r HVCA. Drwy'r ddarpariaeth, a reolir gan PMST ar ran cyflogwyr lleol, llwyddwyd i gofrestru chwe ymgeisydd erbyn diwedd y flwyddyn. Yn y llun gweler Brian Smyth o wasanaethau awyru SHARPE, sef y person cyntaf i gwblhau'r asesiad, gyda'i aseswr Alan Brown (ar y dde) a'i gyflogwr balch Albert Hamilton, MD.

Ardystiad
Yn ystod 2007, cyhoeddodd SummitSkills 1805 o dystysgrifau cwblhau fframwaith prentisiaeth yn y DU, cynnydd o ddwy ar hugain y cant ers 2006.

"Cefnogi cyflogwyr"

"Rwy'n ffodus fy mod yn gweithio i gwmni sydd â ffocws cryf ar hyfforddiant. Ein targed ar gyfer 2008 yw hyfforddi 15,500 o osodwyr ar gynnyrch a deddfwriaeth. Rydym yn ymdrechu'n barhaus i ddod yn siop dan yr unto."
Philip Bunce, Bosch Thermotechnology.



Summit SKILLS

Vega House
Opal Drive
Fox Milne
Milton Keynes
MK15 0DF

Ffôn: 01908 303960

Ebost: enquiries@summitskills.org.uk

www.summitskills.org.uk

Mae Sgiliau ar gyfer Busnes yn rhwydwaith a arweinir gan gyflogwyr syÅfn cynnwys 25 o Gynghorau Sgiliau Sector. Drwy ei wybodaeth heb ei hail oÅfr farchnad lafur a barn cyflogwyr o bob sector o economiÅfr DU, maeÅfr rhwydwaith yn nodiÅfr newid sydd ei angen mewn polisi ac arfer mewn perthynas ag addysg a datblygu sgiliau. GydaÅfr dylanwad a ddyfarnwyd drwy drwyddedau gan lywodraethau Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, a gydag arian preifat a chyhoeddus, maeÅfr rhwydwaith annibynnol hwn yn ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant ar yr ochr gyflenwi, sef prifysgolion, colegau, cyllidwyr a chyrff cymwysterau, i gynyddu cynhyrchedd ar bob lefel o fewn y gweithlu.d training